Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor Council Minutes

18 Mehefin 2018 / 18 June 2018

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o Gyngor Cymuned Llandwrog a gynhaliwyd Nos Lun, 18 Mehefin 2018 yn Neuadd Pentref Y Groeslon.

Minutes of the Full Council Meeting held Monday evening, 18th of Mehefin 2018 at Groeslon Village Hall

Yn bresennol / Present - 9 aelod / members

Yn cynrychioli Ward y Fron – Representing the Ward of Fron
Dim cynrychiolaeth / No representation

Yn cynrychioli Ward Carmel – Representing the Ward of Carmel
Cyng. Alan Patterson; Cyng Helen Hughes; Cyng. Bryn Williams

Yn cynrychioli Ward Y Groeslon – Representing the Ward of Y Groeslon
Cyng. Alun Wyn Jones; Cllr. Eddie Willcox; Cyng. Hywel J Owen; Cyng. David C Davies; Cyng Gerwyn Owen

Yn cynrychioli Ward Llandwrog a Dinas Dinlle - Representing the Ward of Llandwrog & Dinas Dinlle
Cyng. Clive Bayley

Hefyd yn bresennol / Also in Attendence-

David Roberts, Clerc y Cyngor / Council Clerk
Huw Roberts , Cyfieithydd / Translator

18-06-01 **1 Croeso'r Cadeirydd / *Chairman's Welcome***

Agorwyd y cyfarfod gan Is-gadeirydd y Cyngor sef Cyng. Alun Wyn Jones gan fod y Cadeirydd y Cyngor. Cyng Gwyn Owen Jones wedi ymddiheuro .
Diolchodd i bawb oedd yn bresennol am fynychu. Gofynnodd i pob aelod i gadw at y pwnc ac i siarad trwy'r gader.
Aeth yn syth at y rhaglen.

The meeting was opened by the Vice-Chairman, Cllr.Alun Wyn Jones as the Chairman,Gwyn Owen Jones, had apologized for hie absence. He welcomed all. Ha asked that all questions be directed via the Chair and to keep to the matter at be dicussed.

18-06-02 **2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb / *Apologies for Absences***

Cyng. Gwyn Owen Jones;

18-05-03 **3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar y Unrhyw Eitem ar y Rhaglen – Adran 51 Deddf Llywodraeth Lleol 2000 – *To Receive isclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000***

Cyng David C Davies - Aelod o Bwyllgor Neuadd Y Groeslon
Cyng Alun Wyn Jones - Aelod o Bwyllgor Neuadd Y Groeslon
David Roberts, Clerc – Eitem Panel Gwaith y Clerc

18-06-04 **4 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd 21 Mai 2018 fel Rhai Cywir / To Confirm the Minutes of the Councils Annual General Meeting held on the 21st of May 2018 as a True Record**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.
The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

18-06-05 **5 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

18-06-06 **Sedd Wag, Ward Llandwrog a Dinas Dinlle / Vacant Seat Llandwrog Ward**

Adroddwyd nad yr un new wedi dod gerbron i gyfethol. Clerc i barhau i ymdrechu i adnabod aelod o'r gymuned i ymuno a'r Cyngor./ No names forthcoming to be co-opted.

18-06-07 **Panel Rheolau Sefydlog / Standing Orders Panel**

Enwebwyd Cyng . Bryn Williams i fod yn aelod o'r Panel./ Cllr Bryn Williams was moninated to the Panel

---

18-06-08 **4 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a gynhaliwyd 21 Mai 2018 fel Rhai Cywir / To Confirm the Minutes of the Previous Meeting held on the 21st of April 2018 as a True Record**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.
The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

18-06-09 **5 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

18-06-10 **Gwasanaeth Bws 1F ac 1M / 1F & 1M Bus Services**

Adroddwyd gan y Clerc fod dyddiad y gwasanaeth newydd wedi llithro. Bydd yn weithredol o 4ydd o Orrffennaf. Y rheswm am yr oedi yw fod Cwmni Huw yn bwriadu gwella'r gwasaneth trwy rhedeg bws o Fron a Carmel i Penygroes am 9 y bore a dychwelyd o Penygroes I fynu am 10,20 fel fod y trigolion y gymuned yn cael y cyfle I ymweld a'r meddygon. Bydd y bws yn mynd yn ei flaen o Carmel am 10,30 y bore I Gaernarfon via Fron a Rhosgadfan.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth fel a nodwyd.
Resolved to accept the informationas noted.

18-06-11 **Cofebfeini Rhyfel Byd 1af Brynrhos a Bryn'rodyn / / Memorial Headstone Bryn'rodyn & Bryn'rhos Chapels, Groeslon**

Cafwyd cadarnhad gan y Clerc fod aelodau Capeli Brynrhos a Bryn'rodyn wedi cytuno i gais y Cyngor i gymryd meddiant o'r cofebfeini.'Roedd yr aelodau y capel yn diolch yn fawr i'r Cyngor. Dywedodd y Cadeirydd fod Pwyllgor Neuadd Groeslon wedi cytuno i leoli'r cofebfeini.

Sylwadau Aelodau
HJO - mater i aelodau Pwyllgor y Neuadd yw penderfynu'r union leoliad yn y Neuadd.
CB - awgrymu glanhau'r cofebfeini.

Penderfynwyd - Fod y Cyngor yn gofyn i gwmni Inigo Jones i dynnu'r cofebfeini o'r capeli , i'w glanhau, i'w storio ac i'w ail-leoli yn Neuadd Pentref Groeslon unwaith y bydd Pwyllgor y Neuadd wedi adnabod safle iddynt

Resolved- that the Council to ask Inigo Jones to remove the headstones from the chapels to clean and restore, to store and to re-locate in Groeslon Village Hall once the Village Hall Committee identifies the locations within the hall.

18-06-12 **Trosglwyddo Cae Peldroed Y Fron i Gwmni Canolfan y Fron ar brydles tymor hir / Transfer *the Fron Football Field to Cwmni Canolfan Y Fron on a long term lease***

Gohirwyd cyfarfod o'r Pwyllgor Mynwentydd ym Mehefin. Clerc i drefnu cyfarfod o'r Pwyllgor Mynwentydd ac Asedau a gwahodd cyfarwyddwyr Canolfan y Fron i gadarnhau eu cynlluniau ar gyfer y cae.

18-06-13 **Grwp Cyswllt Moel Tryfan – Safle Saethu, Y Fron / Rifle Range Fron**

Adroddwyd gan Cyng. Bryn Williams fod Nock Smith wedi ffensio sawl lleoliaau o gwmpas Mynydd Moel gan fod yn dyllau peryglus. Arwyddion newydd hefyd o amgylch y safle saethu.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth a monitor y sefyllfa
Resolved to note the information and monitor the situation

18-06-14 **Gwella Delwedd Dyffryn Nantlle**
Trafodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Mai 9fed, 2018

Nodwyd gan y Clerc fod cofnod 8.1 yn datgan

"Warden Cymunedol - Cynghorau Cymuned i ddod at ei gilydd er sicrhau cyfraniad ariannol ar y cyd er ceisio sicrhau warden cymunedol. Y Cynghorau Cymuned i ystyried swm sydd yn bosib iddynt godi."

Bydd rhaid i'r Cyngor fod yn barod i dderbyn cais gan Gyngor Llanllyfni a Chyngor Llanwnda yn y broses llunio cyllid 2019-10.

Cyngor yn erbyn y syniad o gyflogi Warden. Dywedodd Cyng. Helen Hughes oedd yn cynrychioli'r Cyngor , y syniad o gyflogi Warden oedd i glirio plastigion. Barn yr Aelodau yw mai cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd yw sicrhau fod y gweithwyr ail-gylchu yn cymryd fwy o ofal wrth wagio'r biniau glas.

Sylwadau Aelodau-
Cyng. Eddie Willcox - angen gwybod beth fydd cost, cyfrifoldeb a dyletswyddau'r warden. Yn crybwyll y syniad o gael gwardeiniaid gwirfoddol yn y pentrefi.

Cyng. Hywel J Owen - yn ymddangos fod y Cyngor Sir yn ceisio trosglwyddo eu cyfrifoldebau i Gynghorau Cymuned. Cyngor Gwynedd ddylai oruchwylio'r gweithwyr ail-gylchu. Yn datgan fod rhaid i gynrychiolwyr y Grŵp hwn peidi o a gadael i Gyngor Gwynedd ddylanwadu'r trafodaethau.

Cafwyd cadarnhad y bydd Cyng. Helen Hughes a Cyng., Hywel J Owen yn mynychu cyfarfod nesaf o'r Grŵp a gynhelir Dydd Mercher, 11 Gorffennaf 2018 yn Plas Silyn, Penygroes am 2 o'r gloch

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth gan ddisgwyl adborth gan ein cynrychiolwyr yn cyfarfod nesaf o'r Cyngor a gynhelir 11 Gorffennaf

Resolved to note the information and await the minutes of the meeting to be held 11 July

18-06-15 **Diffyg Safle Chwarae yn Y Groeslon / Lack of Playing Area In Groeslon**

Cafwyd cefndir yr holl drafferthion gan y Cadeirydd.

Yr ymdrech gan Cyngor Gwynedd heb fod yn llwyddiannus i gael cwmni Watkin Jones i wneud y gwaith angenrheidiol ar y cae.

Sylwadau Aelodau –
Cyng. Gerwyn Owen - Cyngor yr ysgol yn llythyr Prif weithredwr Cyngor Gwynedd I geisio cael datrysiad ar y sefyllfa.
Cyng. David C Davies - yn awgrymu i'r ysgol lythyr Mark Watkin Jones yn uniongyrchol
Cyng. Hywel J Owen - cynnwys Siân Gwenllïan AC os nad oes symudiad yn y sefyllfa yn fuan

***Penderfynwyd derbyn a nodi'r wybodaeth* a monitro'r sefyllfa.**
Resolved – to note the discussion and monitor the situation

18-06-16 **Hen Ysgol Carmel / Carmel Old School**

Siolmedig oedd adrodd nad oedd cais cynllunio wedi cyrraedd. Cyngor Gwynedd wedi cyfaddef fod yna dorri rheolau cynllunio. Clerc i ddilyn y mater gyda Swyddog Gorfodaeth yr Adran Cynllunio unwaith eto.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth a monitro'r sefyllfa.
Resolved to note the information and monitor the situation

18-06-17 **6 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Panel Gwaith y Clerc a Gynhaliwyd 30 Mai 2018 fel Rhai Cywir / To Confirm the Minutes of the Clerks Conditions of Service Panel held on May 30th 2018 as a True Record**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.

The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

18-06-18 **7 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

18-06-19 **Cytundeb Gwaith y Clerc / Clerks Contract of Employment**

Penderfynwyd - fod y Cyngor yn cymeradwyo'r Panel i ddiweddaru cytundeb gwaith y Clerc a swydd ddisgrifiad y Clerc

Resolved- for the Council to give it's approval to the Panel to update the Clerks Contract of Employment and Job Description

18-06-20 **Cyflog y Clerc / Clerks Salary**

Penderfynwyd ar y canlynol-

- ***i) Fod y Cyngor yn gofyn i'r Panel arfarnu swydd y Clerc trwy ddefnyddio meincnod yr NLCC/SLCC ac sydd wedi ei fabwysiadu ers 2004 gan Un Llais Cymru***
- ***ii) Fod y Cyngor yn cydnabod fod gofynion a cyfrifoldeb y swydd wedi newid yn sylweddol ers 2006 a bod yr arfarniad uchod yn debygol o olygu cost ychwanegol i'r Cyngor.***

Resolved

- ***i) That the Council asks the Panel to carry out an evaluation of the Clerks salary by using the NLCC/SLCC benchmark adopted by One Voice Wales in 2004.***

ii) ***That the Council acknowledges that the workload and responsibilities of the Clerks work has increased significantly since 2006 and that the evaluation could result in additional cost to the Council.***

18-06-21 **8 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Panel Ymgysylltu a Gynhaliwyd 12 Mehefin 2018 fel Rhai Cywir / To Confirm the Minutes of the Consulting Panel held on June 12th 2018 as a True Record**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.

The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

18-06-22 **9 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

Penderfynwyd ar y canlynol –

i) ***Fod y Cyngor yn derbyn y wybodaeth fel y nodwyd ac yn ymddiried yn y Panel i gyrraedd y cam nesaf.***

ii) ***Fod y Pwyllgor Cyllid yn adolygu'r gyllideb i adnabod y cyllid sydd ar gael ar gyfer yr adolygiad uwchlaw'r £1,500 sydd wedi ei glustnodi***

Resolved –

i) ***For the Council to accept the information as noted and entrust the Panel to move to the next phase***

ii) ***For the Finance Committee to review the 2018-19 budget to identify any underspend that may be available for the consultation which would be in addition to the £1,500 previously earmarked***

18-06-23 **10 Cyfrifon Terfynol a Trefniadau Archwilio Cyfrifon 2017-18 / Final Accounts & Audit Arrangements for 2017-18**

Adroddwyd gan y Clerc fod David Chidley o Gwmni W J Mathews wedi cwbwlhau yr archwiliad mewnol ac wedi arwyddo'r Ffurflen Flynyddol

Y cam nesaf yw i'r Clerc ardystio Rhan 2 o'r "Daganiadau Llywodraethu Blynyddol" cyn 30 Mehefin 2018 ac yn ei gyflwyno i'r Cyngor.

Rhaid i'r Cyngor cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol cyn 30 Mehefin 2018, gyda'r Cadeirydd yn llofnodio Rhan 2 o'r "Datganiad Llywodraethu Blynyddol".

Y Clerc wedyn yn anfon y Ffurflen Flynyddol gyda chopiau arstiedig o'r dystiolaeth y gofynnwyd amdani at yr archwilydd allanol sy'n gweithredu ar ran Archwilydd Cyffrednol Cymru

Bydd yr Archwilydd Allanol yn y Ffurflen Flynyddol i'w cyhoeddi erbyn 30 Medi 2018

Cyflwynwyd y Ffurflen Flynyddol i'r Cyngor gan y Clerc.

The Annual Return was presented to the Council by the Clerk

Penderfynwyd ar y canlynol-

i) ***Fod y Cyngor yn cymeradwyo'r "Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn daeth i ben 31 Mawrth 2018" ac i'r Cadeirydd yn arwyddo Rhan 2***

ii) ***Fod y Clerc yn anfon y Ffurflen Flynyddol i'r Archwilydd Allanol gyda'r holl dystiolaeth y gofynnwyd amdano***

The following was resolved-

i) To approve the "Annual Return for the Year Ended 31 March 2018" and for the Chairman to sign Part 2

ii) For the Clerk to send the Annual Return to the External Auditors with all the working papers that is required.

Arwyddwyd y Ffurflen gan y Cadeirydd o flaen y Cyngor llawn yn y Gymreg a'r Saesneg

Gofynnodd Cyng. Helen Hughes am swm o £8,823 oedd yn y fantolen ar 31 Mawrth 2018. Eglurodd y Clerc fod y gronfa wedi ei rosglwyddo I cyllideb 2018-19 o dan y pennawd Datblygiadau

---

18-06-24 **11 Materion a Godwyd gan Aelodau**

Cyng. Eddie Willcox

18-06-25 **Torri Glaswellt Pentrefi**

Cwyn fod gwair yn uchel mewn sawl lleoliad. Peryglus i yrwyr. Ar ddallt fod y Cyngor Sir yn gwarchod natur, ond rhaid rhoi diogelwch defnyddwyr y ffyrdd yn gyntaf.

Sylwadau Aelodau-
Cyng. Bryn Williams
Cytuno gyda EW. Gwair uchel iawn ar hyd o ffordd o'r Bryn i Faes Tryfan. O'r farn fod angen cysylltu gyda

Cyng. Helen Hughes.
Yn awgrymu fod angen cysylltu gyda'r Cynghorwyr Sir, sef Dilwyn Lloyd ac Eric Jones.

Gwnaed y sylw fod y toriadau yn llai niferus eleni

Penderfynwyd ar y canlynol-

i) Fod y Cyngor ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn datgan anfodlonrwydd y Cyngor hwn fod glaswellt o amgylch y pentrefi yn uchel ar hyd y ffyrdd mewn sawl lleoliad.

ii) Fod y Cyngor Sir yn anfon amserlen torri gwair i'r Cyngor hwn.

iii) Fod y Clerc yn cysylltu gyda Cynghorydd Dilwyn Lloyd ac Eric Jones gan ofyn iddynt i gysylltu gyda'r Adran berthnasol a phwyso arnynt i dorri'r glaswellt ac anfon yr amserlen i'r Cyngor Cymuned.

Resolved-

i) For the Council to write to Gwynedd Council to complain about the lack of grass cutting in the villages.

ii) To ask Gwynedd Council for the timetable of cuts in the villages

iii) To bring the matter to the attention of the elected County Councillors, Dilwyn Lloyd and Eric M Jones and to ask them to press the Council Officers for the above information.

18-06-26 **Llwybr yr Arfordir Dinas Dinlle**

Yn bryderus am y sefyllfa. Adroddwyd fod yna "gap" o oddeutu 50 medr sydd yn amhosib i'w gerdded i pobol anabal a babanod.
Gofyn am gefnogaeth y Cyngor i ofyn i Gyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Gwynedd i wneud gwaith ar y llwybr.

Sylwadau Aelodau –

Cyng. Gerwyn Owen - CNC a CG wedi datgani'r Cyngor hwn yn ddiweddar nad oes bwriad cyflawni unrhyw waith ar y llwybr. Yr unig obaith sydd gan y Cyngor hwn yw agor llwybr newydd gyferbyn y lon yn y dyfodol

Cyng., Clive Bayley - CNC wedi datgan mai " managed retreat" ydi'r ardal hwn - annhebygol o gyflawni gwaith.

Cyng. David C Davies – peiriannau gan CNC ar y safle ar sawl achlysur. Onid oes modd iddynt ystyried cario deunydd i adfer y llwybr os oes peiriant t ar y safle?

Cyng. Hywel J Owen – o'r farn fod yna werth cysylltu gyda CNC a Cyngor Gwynedd. "Dyfal Donc a Dyr y Garreg"

Penderfynwyd cysylltu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru gan ofyn Iddynt ystyried cario deunydd i adfer y llwybr os oes peiriant ar y safle

Resolved – to contact Natural Recources Wales ato ask if the would consider filling in the gap at the footpath if the have a machine on site.

18-06-27 **Llwybrau Ucheldir**

Dau lwybr cyhoeddus yn achosi pryder.

1) Llwybr a enwir Llwybr Kate Roberts sydd yn cychwyn o ben Allt Coed Mawr ac sydd yn ymuno a llwybrau y "Pilgrims Way".
2) Llwybr 47 - rhannau o'r llwybr wedi ei 2) ddifetha trwy'r gwaith sydd yn cael i gynnal yn chwarel Bryn Fferam.

1) The rambler and other associated websites list a route they call the Kate Roberts path this starts at the memorial stone on the Waenfawr- Rhosgadfan road transversing to the top of Rhosgadfan crossing Moel Tryfan and linking to the Pilgrims way,This path is well known and has been in use for many years, but it is not marked or included in the list of dedicated paths.

2) Footpath No 47 - path which crosses Bryn Fferam workings appears to have been adulterated.

Penderfynwyd dod ar faterion uchod i sylw'r Adran Llwybrau Cyhoeddus Cyngor Gwynedd a gofyn iddynt am ystyried y sefyllfa ac adrodd nôl i'r Cyngor hwn.

Resolved – to bring the matters up with the Footpath Officers at Gwynedd Council

---

Gohebiaeth / Communication Received

18-06-28 **12 Llywodraeth Cymru / Wales Government**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau / Equality, Local
Dyddiad derbyn yr ohebiaeth / Comm received 5/6/18 via email

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cynnal ymchwiliad i amrywiaeth mewn llywodraeth leol. Isod, mae llythyr oddi wrth y Cadeirydd sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth.

The Equality, Local Government and Communities Committee is undertaking an inquiry into diversity in local government. Please find below a letter from the Chair with further information.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth heb sylwadau
Resolved – to accept the information without any comments

18-06-28 **13 Un Llais Cymru / One Voice Wales /**
Rheolau Sefydlog - Model Cenedlaethol Diweddaraf 2018 Standing Orders National Model Update 2018
Dyddiad derbyn yr ohebiaeth / Comm received 8/6/18 via email

Penderfynwyd cyfeirio y mater i Panel Rheolau Sefydlog i'w ystyried
Resolved – to refer the matter the Standing Order Panel for cosideration

18-06-29 **14 Un Llais Cymru / One Voice Wales /**
Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor Area Committee
Dyddiad derbyn yr ohebiaeth / Comm received 4/6/18 via post

Rhybydd o gyfarfod a Rhaglen ar gyfer Nos Fawrth 12 Mehefin, Institiwt, Caernarfon / Notice of Meeting and Agenda Tuesday 12 June.
Cofnodion cyfarfod 15 Mawrth 2018 / Minutes of the last Area meeting 15 March 2018

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth heb sylwadau
Resolved – to accept the information without any comments

18-06-30 **15 Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council**
Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd – Joint planning Policy
Gwynedd a Món / Gwynedd & Anglesey

Cyfleusterau Llety i Dwristiaid / Tourism Accomodation & Facilities
Cymysgedd Tai / Housing Mix
Dyddiad derbyn yr ohebiaeth / Comm received 3/6/18 via post

Gofyn am farn y ar y cynlluniauc Cyfnod ymgynghrol 24/5/18 hyd at 5/7/18
Opinion wanted on the Supplementery Planning Guidence . Consultation period 24/5/18 hyd at 5/7/18

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth heb sylwadau
Resolved – to accept the information without any comments

18-06-31 **16 Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications - Mehefin 2018 / June 2018**

Cais Rhif / Application Number - **C18/0476/17/CR**
Cyfeiriad / Address - **Plas Glynllifon, Llandwrog LL54 5DY**
Bwriad / Proposal - **Gwaith adnewyddu i'r ffasad allanol ac i ychwanegu triniaeth gwrth-ddwr i'r adeilad / Restoration works to external facade and to add a waterproof treatment to the building.**

Penderfyniad y Cyngor – dim gwrthwynebiad
Council Decision – no objection

Cais Rhif / Application Number - **C18/0398/17/LL**
Cyfeiriad / Address - **Cae Goronwy, Y Fron LL54 7PU**
Bwriad / Proposal - **Estyniad / Extension.**

Penderfyniad y Cyngor – dim gwrthwynebiad
Council Decision – no objection

Materion Ariannol / Financial Matters

18-06-32 **17 Derbyniadau Wedi ei Dderbyn Mai 2018 – Income Received May 2018**

Manylion / Details	Cyfanswm
Zurich Insuurance Ad-daliad Difrod Wal Ftynwent Carmel	£1,705.00

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth .
Resolved to accept the information

18-06-33 **18 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor - Payments to be approved**

Manylion / Details	Swm heb TAW Amount excluding VAT	Cyfanswm y Taliad- Total Payment	Rhif Siec/ Cheque Number
Cyflog y Clerc – Mehefin 2018 – Clerks Salary June 2018	£429.51	£429.51	Uniongyrchol
HMRC-Treth Incwm Mehefin 2018– Income June 2018	£113.40	£113.40	Uniongyrchol
Lwfans Clerc– Mehefin 2018– Clerks Allowance June 2018	£24.00	£24.00	Uniongyrchol
Viking Direct – Defnyddiau Swyddfa			
Huw Roberts – Cyfieuthu Mai 2018	£54.00	£54.00	101808
Huw Roberts – Cyfieuthu Panel Ymgysylltu Mehefin 2018	£54.00	£54.00	101808

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a rhoddwyd yr awdurdod i'r Clerc i ryddhau'r oll daliadau.
Resolved to accept the information and to authorise the Clerk to relaease all the payments

---

18-06-34 **19 Materion i'w Codi gan aelodau i gyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn / matters to be raised by Members for the Next Meeting (18 Mehefin 2018 / 18 June 2018)**

Cyng. Alun Wyn Jones – Mainc fynwent Bryn'rodyn
Cyng. Helen Hughes – Arwyddion Cae Chwarae Carmel; Lloches Bws Gardd Carmel; Ffioedd Claddu
Cyng. Bryn Williams – Gor-yru yn y pentrefi
Cyng. Alan Patterson – Baw Gwartheg yn y pentrefi
Cyng. Gerwyn Owen – Llwybr Grugan

18-06-35 **20 Dyddiadau Cyfarfod Nesaf / *Dates of Next Meetings***

Cyfarfod / Meeting – **Cyngor Llawn Mis Gorffennaf / July Full council**
Dyddiad / Date - Dydd Llun 16 Gorffennaf 2018 / Monday 16 July 2018
Amser / Time - 7.30 yr hwyr
Lleoliad / Venue Neuadd Carmel Village Hall

Cyfarfod / Meeting **– Pwyllgor Cyllid / Finance Committee**
Dyddiad / Date - 27 Mehefin 2018 / 27 June 2018
Amser / Time am 7.00 yr hwyr
Lleoliad / Venue - Neuadd Pentref Groeslon Village Hall

Cyfarfod / Meeting – **Pwyllgor Mynwentydd ac Asedau/ Cemeteries & Assets**
Dyddiad / Date - Monday 2 July 2018 / 27 June 2018
Amser / Time am 7.00 yr hwyr
Lleoliad / Venue - Neuadd Carmel Village Hall

Cyfarfod / Meeting – **Panel Gwaith y Clerc / Clerks Working Group**
Dyddiad / Date - i'w gadarnahu
Amser / Time am 7.00 yr hwyr
Lleoliad / Venue – i'w gadarnahu

Cyfarfod / Meeting – **Panel Ymgysylltu / Consultation Panel**
Dyddiad / Date - i'w gadarnahu
Amser / Time -
Lleoliad / Venue – i'w gadarnahu

Cyfarfod / Meeting – **Panel Rheolau Sefydlog / Standing Orders Panel**
Dyddiad / Date - i'w gadarnahu
Amser / Time -
Lleoliad / Venue – i'w gadarnhau

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00 yr hwyr / The meeting ended 9:00 pm

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir – The Minutes were recorded as accurate	
Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor **Signed by the Chairmam**	
Dyddiad - Date	